Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2022

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori'r Ceisydd** | **10** |
| **Prydlondeb Ymatebion** | **11** |
| **Canlyniadau Ceisiadau a Gwblhawyd** | **12** |
| **Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau** | **14** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **16** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **18** |
| **Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | **18** |
| **Apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)** | **18** |
| **Atodiad A: Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2022** | **19** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r ail adroddiad ar bymtheg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored.  Mae hwn yn adroddiad ôl-weithredol sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2022.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â delio â cheisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA2018) / Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Mae'r ystadegau'n ymdrin â cheisiadau a gofnodwyd gan yr Uned Hawl i Wybodaeth Llywodraeth Cymru yn unig ac nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" a gwybodaeth a rennir yn ystod y gwaith o ddydd i ddydd.  O ganlyniad, dim ond cipolwg ar brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni nodir yn wahanol, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau yn yr adroddiad hwn, o System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth Llywodraeth Cymru ar 22 Mai 2023. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i un pwynt degol mewn mannau a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a gafwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Crynodeb:**

Yn 2022:

- Cafodd Llywodraeth Cymru 1,031 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.

- Bu gostyngiad o 8.8% yng nghyfanswm nifer y ceisiadau a gafwyd (o 1,131 yn 2021). Dyma'r trydydd nifer uchaf o geisiadau a gafodd Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn galendr ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ddechrau ar 1 Ionawr 2005.

- O'r 1,031 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau[1] 1,030 (99.9%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

- O'r 1,030 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 883 (85.7%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 894 (86.8%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].

- O'r 1,030 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd yr holl wybodaeth neu rywfaint ohoni wrth ymateb i 649 (63.0%).

- Yr esemptiadau / eithriadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd: adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth: gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill (17.7%), adran 40 Deddf Rhyddid Gwybodaeth: gwybodaeth bersonol (17.3%), ac adran 22 Deddf Rhyddid Gwybodaeth: gwybodaeth y mae bwriad i'w chyhoeddi yn y dyfodol (12.7%).

- Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 56 o gwynion (5.4% o'r ceisiadau a gafwyd) yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd â cheisiadau am wybodaeth.

- O'r 56 adolygiad mewnol, cafodd y gŵyn ei chadarnhau mewn 10 achos, ei chadarnhau'n rhannol mewn 6 achos, a chafodd y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau mewn 40 o achosion.

- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 4 o gwynion[3] (0.4% o'r ceisiadau) a rhoddodd Hysbysiad Penderfynu mewn perthynas â 2 ohonynt.

- Nid oedd dim Hysbysiadau Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[1] Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.
[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.
[3] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu sydd wedi'i ddatrys fel arall gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**

Cafodd Llywodraeth Cymru 1,031 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2022. Ers dechrau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a geir bob blwyddyn wedi amrywio. Roedd 8.8% o ostyngiad yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn 2022 o'i gymharu â 2021. Mae'r cyfanswm o 1,031 o geisiadau a gafwyd yn drydydd nifer uchaf o geisiadau a gafodd Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn galendr ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ddechrau ar 1 Ionawr 2005.


Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn nodi cyfanswm blynyddol y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafodd Llywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a gafwyd o fis i fis yn 2021 a 2022.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd yn 2005-2022

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a gafwyd | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---:|---:|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6% |
| 2007 | 574 | -15.2% |
| 2008 | 638 | 11.1% |
| 2009 | 860 | 34.8% |
| 2010 | 813 | -5.5% |
| 2011 | 853 | 4.9% |
| 2012 | 992 | 16.3% |
| 2013 | 1,102 | 11.1% |
| 2014 | 914 | -17.1% |
| 2015 | 899 | -1.6% |
| 2016 | 885 | -1.6% |
| 2017 | 787 | -11.1% |
| 2018 | 934 | 18.7% |
| 2019 | 734 | -21.4% |
| 2020 | 984 | 34.1% |
| 2021 | 1,131 | 14.9% |
| 2022 | 1,031 | -8.8% |


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd yn 2005-2022



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd bob mis: 2021 a 2022

| Mis | 2021 | % o'r Cyfanswm | 2022 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 109 | 9.6% | 115 | 11.2% |
| Chwefror | 117 | 10.3% | 81 | 7.9% |
| Mawrth | 77 | 6.8% | 98 | 9.5% |
| Ebrill | 62 | 5.5% | 66 | 6.4% |
| Mai | 66 | 5.8% | 68 | 6.6% |
| Mehefin | 103 | 9.1% | 75 | 7.3% |
| Gorffennaf | 76 | 6.7% | 71 | 6.9% |
| Awst | 98 | 8.7% | 87 | 8.4% |
| Medi | 77 | 6.8% | 84 | 8.1% |
| Hydref | 78 | 6.9% | 109 | 10.6% |
| Tachwedd | 85 | 7.5% | 98 | 9.5% |
| Rhagfyr | 183 | 16.2% | 79 | 7.7% |
| **Cyfanswm** | **1131** | **100%** | **1031** | **100%** |

Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd bob mis: 2021 a 2022




Yn Nhabl 3 ceir dadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafodd Llywodraeth Cymru yn 2022. Gan fod newid wedi bod yn strwythur y sefydliad ym mis Ebrill 2022, mae dwy set o ffigurau. Mae'r set gyntaf (Tabl 3a a Ffigur 3a) yn dangos ceisiadau a gafwyd cyn mis Ebrill 2022; mae'r ail set (Tabl 3b a Ffigur 3b) yn dangos ceisiadau yr ymdriniwyd â nhw ar ôl yr ad-drefnu.

Tabl 3a: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2022 (cyn y newid yn y sefydliad)

| Grŵp / Maes Cyfarwyddwr Cyffredinol | Nifer y Ceisiadau 2022 | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 37 | 15.9% |
| Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 69 | 29.6% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 63 | 27.0% |
| Swyddfa'r Prif Weinidog | 13 | 5.6% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 42 | 18.0% |
| Heb eu neilltuo'n ffurfiol[4] | 9 | 3.9% |
| **Cyfanswm** | **233** | **100%** |

Ffigur 3a: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2022 (cyn y newid yn y sefydliad)





[4] Nid oedd y ceisiadau hyn yn dod o dan unrhyw faes grŵp penodol ac ymdriniwyd â nhw'n ganolog gan yr Uned Hawl i Wybodaeth

Tabl 3b: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2022 (ar ôl y newid yn y sefydliad)

| Grŵp / Maes Cyfarwyddwr Cyffredinol | Nifer y Ceisiadau 2022 | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 277 | 28.4% |
| Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu | 137 | 17.2% |
| Y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol | 23 | 2.9% |
| Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg | 104 | 13.0% |
| Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad | 127 | 15.9% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 131 | 16.4% |
| Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog | 44 | 5.5% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 5 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **798** | **100%** |

Ffigur 3b: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2022 (ar ôl y newid yn y sefydliad)




**Categori'r Ceisydd:**

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau'r Senedd, y cyfryngau, staff ac Aelodau Seneddol yn cyfrif am 86 (8.3%) o'r 1,031 o geisiadau a gafwyd. Cafodd y 945 o geisiadau eraill (sy'n cyfateb i 91.7% o'r holl geisiadau) eu cofnodi o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a gafwyd gan bob math o geisydd yn ystod pob chwarter yn 2022

| | Eraill | Aelod o'r Senedd | Y cyfryngau | Staff | Aelod Seneddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 279 | 6 | 7 | 2 | 0 |
| Chwarter 2 | 184 | 1 | 23 | 1 | 0 |
| Chwarter 3 | 225 | 3 | 13 | 0 | 1 |
| Chwarter 4 | 257 | 8 | 18 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm 2022** | **945** | **18** | **61** | **5** | **2** |

Ffigur 4: Ceisiadau a gafwyd gan bob math o geisydd yn ystod pob chwarter yn 2022



**Prydlondeb Ymatebion:**

Mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb fel arfer i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith i’w derbyn, heblaw am eithriadau cyfyngedig. Mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu estyniad rhesymol i’r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi’i bwyso a’i fesur er budd y cyhoedd, ac mae’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith arall os yw’r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O’r 1,031 o geisiadau, roedd 1,030 wedi’u cwblhau (99.9%) ar adeg llunio’r adroddiad hwn. O’r 1,130 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 883 (85.7%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 894 (86.8%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[5].

Mae Tabl 5 isod yn nodi canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005[6].

Tabl 5: Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2022

| Blwyddyn | % a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol |
|---|---|
| 2005 | 63.3% |
| 2006 | 64.2% |
| 2007 | 81.0% |
| 2008 | 86.2% |
| 2009 | 82.1% |
| 2010 | 74.6% |
| 2011 | 83.0% |
| 2012 | 89.0% |
| 2013 | 90.1% |
| 2014 | 91.0% |
| 2015 | 86.6% |
| 2016 | 84.7% |
| 2017 | 83.5% |
| 2018 | 89.7% |
| 2019 | 89.2% |
| 2020 | 79.8% |
| 2021 | 83.2% |
| 2022 | 86.8% |

[5] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[6] Mae’r ffigurau ar gyfer 2005-2008 ychydig yn wahanol i’r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau agored wedi’u cwblhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.


**Canlyniadau Ceisiadau a Gwblhawyd:**

Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 5a a 5b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd a gafodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2021 a 2022 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2021 a 2022

| Categori Cwblhau | 2021 | % o'r Cyfanswm | 2022 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Darparu'r holl wybodaeth | 493 | 43.6% | 496 | 48.2% |
| Darparu peth o'r wybodaeth | 163 | 14.4% | 153 | 14.9% |
| Dim gwybodaeth wedi'i darparu[7] | 138 | 12.2% | 118 | 11.5% |
| Dim gwybodaeth yn cael ei chadw | 328 | 29.0% | 261 | 25.3% |
| Tynnwyd yn ôl | 9 | 0.7% | 2 | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **1,131** | **100%** | **1,030** | **100%** |

Ffigur 5a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2022





[7] Mae'r categori 'Dim Gwybodaeth wedi'i Darparu' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu fwy o esemptiadau, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am eu bod yn fwy na'r terfyn priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu geisiadau sydd wedi'u hailadrodd.

Tabl 6b: Nifer y ceisiadau ‘Dim gwybodaeth wedi’i darparu’ wedi’u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2021 a 2022

| Categori Cwblhau Dim Gwybodaeth wedi’i Darparu | 2021 | % o’r Cyfanswm | 2022 | % o’r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| S12 Mwy na’r Terfyn Priodol | 46 | 33.3% | 25 | 21.2% |
| S14 Blinderus | 1 | 0.7% | 1 | 0.8% |
| S14 Wedi'i ailadrodd | 1 | 0.7% | 0 | 0.0% |
| Yr wybodaeth yn perthyn i gategori esemptio arall[8] | 90 | 65.2% | 92 | 78.0% |
| **Cyfanswm** | **138** | **100%** | **118** | **100%** |

Ffigur 5b: Nifer y ceisiadau ‘Dim gwybodaeth wedi’i darparu’ wedi’u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2022




[8]Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle cafodd yr wybodaeth ei dal yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu fwy o esemptiadau/eithriadau a restrir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu Ddeddf Diogelu Data 2018 / GDPR y DU ar wahân i a12 ‘cost cydymffurfio yn fwy na’r terfyn priodol’ ac a14 ‘blinderus neu wedi'i ailadrodd’.

**Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y gall awdurdod cyhoeddus wrthod darparu'r wybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani:

- y cais yn cael ei ystyried yn un blinderus neu'n un sydd wedi'i ailadrodd;
- byddai cost cydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn perthyn i un neu ragor o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu Ddeddf Diogelu Data 2018 / GDPR y DU.

Mae Tabl 7 a Ffigur 6 yn rhoi manylion yr esemptiadau a'r eithriadau a gafodd eu cymhwyso o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y defnyddiwyd esemptiad a/neu eithriad ar eu cyfer gan ei bod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth


Yr esemptiadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd lle'r oedd yr wybodaeth ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill (adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth), i ddiogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 Deddf Rhyddid Gwybodaeth), a lle'r oedd bwriad i gyhoeddi'r wybodaeth yn y dyfodol (adran 22 Deddf Rhyddid Gwybodaeth).

Tabl 7: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2022

| Deddf-Esemptiad[9] | 2022 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Deddf Diogelu Data 2018 Atodlen 2 Paragraff 16 | 22 | 8.5% |
| Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol Rheoliad 13 | 14 | 5.4% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 21 | 46 | 17.7% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 22 | 33 | 12.7% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 35 | 12 | 4.6% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 40 | 45 | 17.3% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 41 | 11 | 4.2% |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 43 | 30 | 11.5% |
| Pob esemptiad arall | 47 | 18.1% |
| **Cyfanswm** | **260** | **100%** |

[9]Ceir disgrifiad o'r mater y mae pob eithriad yn berthnasol iddo ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

Ffigur 6: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2022



**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol os: i) nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Cafodd Llywodraeth Cymru 56 o gwynion yn 2022 sy'n cyfateb i 5.4% o'r ceisiadau. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â 27.3% yn 2021.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2022)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |
| 2016 | 59 |
| 2017 | 56 |
| 2018 | 81 |
| 2019 | 52 |
| 2020 | 48 |
| 2021 | 44 |
| 2022 | 56 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 7: Nifer y Cwynion (2005-2022)




Tabl 9:  Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2022

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhau'r gŵyn | 10 | 17.9% |
| Cadarnhau'r gŵyn yn rhannol | 6 | 10.7% |
| Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | 40 | 71.4% |
| **Cyfanswm** | **56** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 56 adolygiad mewnol, cafodd y gŵyn ei chadarnhau mewn 10 achos, ei chadarnhau'n rhannol mewn 6 achos, a chafodd y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau mewn 40 o achosion.

Ffigur 8:  Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2022



**Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:**

Nid oes terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol.  Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n datgan y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac y gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau mewn achosion eithriadol i 40 diwrnod gwaith.

O'r 56 o adolygiadau mewnol a gwblhawyd, cafodd 47 (83.9%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith, cafodd 6 (10.7%) eu cwblhau o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith, a chymerodd 3 (5.4%) fwy na 40 diwrnod gwaith i'w cwblhau.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisydd yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas ag ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.  Ar ôl derbyn cwyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu a ddylid ymchwilio ac mae'n bosibl y bydd yn cyhoeddi Hysbysiad Penderfynu wedi hynny.  Hysbysiad Penderfynu yw barn derfynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a pha gamau adferol (os o gwbl) y mae angen eu cymryd.  Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad Penderfynu.  Mae rhai ymchwiliadau'n cael eu datrys yn anffurfiol.

Yn 2022 ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 4 cwyn[10] (0.4% o'r ceisiadau). O'r 4 ymchwiliad a gwblhawyd, rhoddwyd 2 hysbysiad penderfynu. Nid oedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu ymhellach ar yr un o'r hysbysiadau penderfynu.

**Apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth):**

Mae Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) yn gwrando apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Penderfynu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Yn 2022, nid oedd dim Hysbysiadau Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[10] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu sydd wedi'i ddatrys fel arall gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Atodiad A: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2022**

Fel y nodir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y defnyddiwyd esemptiad a/neu eithriad ar eu cyfer gan ei bod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol.

| Deddf – Esemptiad | 2022 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 2 - Trosedd a threthu | 1 | 0.4% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 16 – Diogelu hawliau pobl eraill | 22 | 8.5% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 19 - Braint broffesiynol gyfreithiol | 4 | 1.5% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 24 - Cyfeiriadau cyfrinachol | 1 | 0.4% |
| DPA2018 Atodlen 3 Paragraff 9 - Data a broseswyd gan lys | 1 | 0.4% |
| EIR Rhif 12(4)(b) – Y cais yn amlwg yn afresymol | 3 | 1.2% |
| EIR Rhif 12(4)(d) – Deunydd sy'n dal i gael ei gwblhau | 3 | 1.2% |
| EIR Rhif 12(4)(e) – Deunydd cyfathrebu mewnol | 1 | 0.4% |
| EIR Rhif 12(5)(a) – Cysylltiadau rhyngwladol | 1 | 0.4% |
| EIR Rheoliad 12(5)(e) – Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle mae cyfrinachedd yn cael ei ddarparu gan y gyfraith i ddiogelu buddiant masnachol dilys | 3 | 1.2% |
| EIR Rhif 13 – Data personol trydydd partïon | 14 | 5.4% |
| FOIA Adran 21 – Gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill | 46 | 17.7% |
| FOIA Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 33 | 12.7% |
| EIR Adran 27 – Cysylltiadau rhyngwladol | 6 | 2.3% |
| FOIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 1 | 0.4% |
| FOIA Adran 29 – Yr economi | 4 | 1.5% |
| FOIA Adran 30 – Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus | 1 | 0.4% |
| FOIA Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith | 4 | 1.5% |
| FOIA Adran 32 – Cofnodion llys | 2 | 0.8% |
| FOIA Adran 35 – Ffurfio polisi'r llywodraeth | 12 | 4.6% |
| FOIA Adran 36 – Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | 5 | 1.9% |
| FOIA Adran 38 – Iechyd a Diogelwch | 1 | 0.4% |
| FOIA Adran 40 – Gwybodaeth Bersonol | 45 | 17.3% |
| FOIA Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 11 | 4.2% |
| FOIA Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 3 | 1.2% |
| FOIA Adran 43 – Buddiannau masnachol | 30 | 11.5% |
| GDPR y DU Erthygl 12(5)(b) – Yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol | 2 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **260** | **100%** |